# Cenn@d

TACHWEDD 26 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 248

## Eglwysi rhwydwaith JPIT (Joint Public Issues Team) yn ymateb i newidiadau arfaethedig y Llywodraeth tuag at geiswyr lloches a mewnfudwyr




Mae arweinwyr Eglwysi'r Bedyddwyr ym Mhrydain, yr Eglwys Fethodistaidd a'r Eglwys Ddiwigiedig Unedig wedi cyhoeddi'r datganiad canlynol mewn ymateb i gyhoeddiadau'r Llywodraeth y Deyrnas Unedig yr wythnos hon ynghylch newidiadau arfaethedig i'w pholisi ar geiswyr lloches ac adleoli mewnfudwyr:

**Gadewch inni barhau i garu ein cymdogion**.

Mae'r ddadl gyhoeddus am fewnfudo wedi cael ei siapio'n gynyddol gan leisiau sy'n hyrwyddo ofn a dicter a beio'r rhai sydd eisoes yn cario baich trwm. Rydym yn ofni bod naws a chynnwys datganiad diweddar yr Ysgrifennydd Cartref ar ddiwygio polisi cynnig lloches yn dyfnhau'r rhaniadau hyn yn hytrach na'u gwella.

Nid presenoldeb pobl fregus sy'n ceisio noddfa sy'n bygwth ein cymunedau a'n cymdeithas, ond rhethreg a pholisïau sy'n troi cymydog yn erbyn cymydog ac yn annog rhwygiadau ac ymwahanu yn hytrach na hyrwyddo undod. Nid ceisio tawelu'r rhai sy'n ceisio ein rhannu yw'r ffordd ymlaen, ond yn hytrach mae angen adeiladu systemau lloches sy'n deg, yn dosturiol a threfnus ac sy'n adlewyrchu gwerthoedd ein cymdeithas gynhwysol a goddefgar.

Mae ein ffydd Gristnogol yn mynnu bod system o'r fath yn rhoi blaenoriaeth i urddas dynol, gan drin y bobl hyn fel y dymunem i ni ein hunain gael ein trin. Mae hynny'n golygu:

- bod yn rhaid i'r broses fod â digon o adnoddau i wneud penderfyniadau'n gyflym yn hytrach na gadael pobl mewn ansicrwydd am fisoedd neu hyd yn oed am flynyddoedd;
- caniatáu i'r rhai sy'n gwneud cais am loches weithio, cynnal eu hunain a chyfrannu i gymdeithas;
- galluogi teuluoedd i fod gyda'i gilydd os yw'n bosibl;
- annog integreiddio ac ymdoddi i mewn i gymunedau lleol.

Eto i gyd, byddai llawer o gynigion arfaethedig newydd llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cael effaith i'r gwrthwyneb, yn rhoi mwy o bwysau ar unigolion bregus ac ar system sydd eisoes dan straen.

Rydym yn croesawu'r addewid o greu llwybrau diogel a rheoledig newydd i bobl gael noddfa yn y Deyrnas Unedig, wedi'u noddi gan unigolion a chymunedau. Rydym wedi credu ers amser maith fod hwn yn ddull llawer gwell o fynd i'r afael â theithiau peryglus ar draws y sianel na pholisïau mwy a mwy gelyniaethus. Yn hyn o beth, gwelwn hadau gobaith.

Mae ein heglwysi yn parhau i gael eu cyfoethogi gan gyfraniad y rhai sydd wedi ceisio lloches yn y wlad hon, ac mae ein profiad ni yn un o weld pobl sydd am gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas ein gwlad. Ein galwad a'n hymrwymiad yw parhau i garu ein cymdogion, a'n dyhead dwfn yw gweld agwedd ein cymdeithas at fewnfudo yn adlewyrchu'r gwerthoedd hynny.

*Ms Catriona Wheeler, Llywydd y Gynhadledd Gyffredinol, yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig*

*Y Parch Richard Andrew, Llywydd Cynhadledd y Methodistiaid*

*Y Parch Lynn Green, Ysgrifennydd Cyffredinol, Undeb Bedyddwyr Prydain*

**Gweddi**

Duw'r croeso mawr,
rwyt ti'n ein galw i garu ein cymdogion fel rydyn ni'n caru ein hunain,
gan ddangos dy ofal dros y rhai mwyaf bregus yn ein plith.
Rydym yn cyflwyno ger dy fron heddiw
y rhai sy'n gorfod gwneud teithiau peryglus
er mwyn chwilio am ddiogelwch a noddfa,
y plant sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teuluoedd,
a'r rhai sydd wedi bod yn aros yn hir am newyddion da.
Bydd gyda'r rhai sy'n ofnus neu'n ddig
oherwydd y driniaeth y maent wedi ei derbyn,
a chymunedau sy'n ei chael hi'n anodd
oherwydd tlodi a gwasanaethau annigonol.
Gweddïwn dros y rhai sy'n arwain ein gwledydd, yn wleidyddion a swyddogion,
y byddant yn gwneud penderfyniadau doeth a thosturiol,
wedi'u harwain gan egwyddorion cadarn a moesol.
Boed i ni barhau i garu ein cymdogion – ein holl gymdogion –
hyd yn oed pan mae hynny'n gostus neu'n amhoblogaidd,
a bod yn weision o'th iachâd, dy heddwch, a'th obaith.
Amen.

**Cymryd Camau: Sefyll gyda Ffoaduriaid**

Ar adeg pan ydym yn gweld cynnydd mewn teimladau gwrth-fewnfudo mewn rhai cymunedau lleol ac mewn gwleidyddiaeth, gadewch inni ddangos nid yn unig fod ffoaduriaid yn cael croeso yma, ond hefyd fod ein cymunedau'n sefyll yn gadarn ac yn dosturiol dros gyfiawnder i bawb.

Tomos a Chaffi Cymru yng nghanol Tokyo
**Tudalen 2**

'Mewn dwrn o ddur' – ymdrech ddyddiol Palestiniaid y Llain Orllewinol
**Tudalen 3**

Ffydd a Bywyd yn Lesotho: ffilm newydd gyda Dr Graham Thomas
**Tudalen 5**

# Tomos a Chaffi Cymru yng nghanol Tokyo

Helô, bawb! Tomos ydw i, a dwi ar flwyddyn genhadol yn Japan gyda mudiad yr OMF (Overseas Missionary Fellowship). Mae'r flwyddyn wedi hedfan, a bellach does gen i ddim ond dau fis i fynd hyd nes y byddaf yn dod adref.

Fel y gwyddoch chi os buoch chi'n dilyn fy hanes yn *Cenn@d* a llefydd eraill eleni, dwi yn Japan i weithio gyda 'Dychwelwyr', sef Japaneaid sydd wedi bod dramor ac wedi dod yn ôl adre. Un o'r pethau dwi'n ei wneud ydy rhedeg caffi misol ar eu cyfer yma yng nghanol Tokyo. Byddwn yn ei gynnal er mwyn iddyn nhw allu cwrdd â'i gilydd, ymarfer eu Saesneg eto, a chlywed am Iesu!

Bob mis rydym yn dewis thema wahanol, a'r mis diwethaf yma 'Cymru' oedd y thema. Felly, fe wnaethon ni goginio cacennau cri a bara brith, a dod â Waffles Tregroes o Gymru i'w rhannu gyda'r Dychwelwyr! Fe wnes i hefyd arwain cwis am Gymru – cyfle gwych nid yn unig i rannu am ein diwylliant ond hefyd i sôn am effaith a dylanwad Cristnogaeth yng Nghymru!

Doedd y rhan fwyaf o'r Dychwelwyr ddim yn Gristnogion, ond roedden nhw wedi arfer mynd i ddigwyddiadau Cristnogol dramor. Ond, yn wahanol i'r arfer, fe wnaeth pob un ohonyn nhw ymuno efo'r astudiaeth Feiblaidd rydym yn ei chynnig ar diwedd y caffi!

Ar ôl y caffi, es i am swper gyda rhai o'r Dychwelwyr, ac roedd nifer ohonyn nhw'n awyddus i ofyn cwestiynau am sefyllfa a hanes crefydd yng Nghymru o'i chymharu â Japan. Wrth sgwrsio, fe sylweddolon ni fod yna lawer yn debyg rhwng crefydd yn Japan a Chymru.



Tomos yn rhannu yn y caffi misol

Fe ges i sgwrs debyg gyda myfyriwr arall ar ôl mynd i weld sioe 'Dawns y Ceirw' gan Theatr Cymru, oedd yn perfformio yn Tokyo! Ar ôl y perfformiad, fe wnaethon ni sôn am y tebygrwydd rhwng mytholeg byd natur Cymru a Japan. Mae cyfleoedd i gael sgyrsiau dwfn yn ymwneud â ffydd yn brin yn Japan, felly roedd hi'n wych fod sôn am Gymru wedi ein galluogi ni i gael sgyrsiau da!

Mae mynd i'r deml (sy'n debyg iawn i gapel) yn rhan fawr o draddodiad a diwylliant y wlad. Mae nifer o wyliau ynghlwm â'r grefydd, a gan fod crefydd wedi bod yn rhan o fywyd y wlad am ganrifoedd mae'n aneglur erbyn hyn lle mae'r traddodiad yn gorffen a'r grefydd yn dechrau. Yn wahanol i Gymru, mae dwy grefydd yn rhan o draddodiad Japan: Bwdïaeth a Shinto. Mae 70% o'r boblogaeth yn dilyn Shinto, a 70% yn dilyn Bwdïaeth. Do, fe ddarllenoch chi'n gywir; a na, dydw i ddim wedi camgymryd. Ond, fel mae'r ystadegau'n dangos, mae nifer yn Japan yn credu yn y ddwy grefydd, ac yn aml gwelir teml Fwdïaidd a chreirfa Shintoaidd yn yr un adeilad!



Mae syncretiaeth yn ddwfn yn niwylliant Japan, sef y gred honno sy'n golygu eich bod yn gallu ychwanegu rhannau o grefyddau gwahanol at ei gilydd. Felly, mae nifer o'r Dychwelwyr yn agored iawn i glywed a chredu yng Nghrist, ond ddim yn meddwl fod hyn yn gwrthdaro â dilyn y crefyddau eraill. Mae gwahaniaethu rhwng dilyn y crefyddau yma a mynychu traddodiadau diwylliannol bron yn amhosib i Gristnogion Japan, ac felly mae'r tu hwnt i fy ngallu i!

Ond yr hyn sylweddolais i wrth gael swper gyda'r Dychwelwyr hyn oedd fod cymharu crefydd a diwylliant Cymru a Japan yn golygu ein bod yn gallu trafod Cristnogaeth mewn ffordd fwy dealladwy a chlir! Dwi'n diolch i Dduw am adael i mi dyfu i fyny yng Nghymru, a mod i'n gallu defnyddio'r profiad hwnnw i rannu'r efengyl mewn ffordd syml a phersonol efo'r myfyrwyr Japaneaidd yma!

*Tomos Edwards*
*Funabashi*
*Chiba*
*Tokyo, Japan*

# ‘Mewn dwrn o ddur’ – ymdrech ddyddiol Palestiniaid y Llain Orllewinol




Zaid yn rhannu ei stori yn y capel

Daeth trigain o bobl ynghyd, o bell ac agos, nos Sul, 16 Tachwedd, yng Nghapel Bethesda, yr Wyddgrug, i groesawu cyfeillion oedd wedi llwyddo i gyrraedd y Deyrnas Unedig o Diroedd y Meddiant ym Mhalesteina.

Roedd Nidal, Cristion o Fethlehem, a Zaid, Mwslim o Nablus, yn cyd-deithio er mwyn rhannu am eu sefyllfa ar y Llain Orllewinol dan feddiannaeth Israel ac wedi dod â nifer o nwyddau Palestinaidd efo nhw.

Arweinydd teithiau seiclo a gwibdeithiau o Fethlehem yw Nidal Rishmawi, ac mae’n rhan o gymuned fechan eithriadol bellach o Gristnogion yn y dref hanesyddol hon, y gwyddom amdani fel man geni Iesu. Roedd rhai’n bresennol yn y cyfarfod oedd wedi cael eu harwain ar un o’r teithiau treftadaeth hyn ac yn gallu tystio i ofal Nidal drostyn nhw. Cyfeiriodd un yn arbennig at achlysur ym mis Hydref 2023, cyn y trais a arweiniodd at ryfel Israel yn Gaza, pan fu i Nidal warchod ei fywyd pan ddechreuodd byddin Israel saethu nwy dagrau at y teithwyr yn y Llain Orllewinol. Mae Nidal yn gweithio i adrodd gwir stori Palesteina drwy dwristiaeth, gan gredu bod pob taith yn weithred o godi ymwybyddiaeth ac o barhau’r traddodiad a’r cof am eu presenoldeb yno.

Ymchwilydd a gweithredydd dros gyfiawnder cymdeithasol yw Zaid Azhari, ac mae’n rhan o gwmni cynhyrchu defnyddiau traddodiadol yn Nablus. Mae’n datblygu mentrau a rhaglenni sy’n tynnu sylw at y cysylltiad rhwng hunaniaeth genedlaethol a thwristiaeth sydd wedi ei gwreiddio yn y gymuned. Wrth wneud hynny mae’n ailddiffinio’r sector fel offeryn i fagu gwydnwch ac ymwybyddiaeth wleidyddol.

Roedd y digwyddiad yn cael ei gefnogi gan Grŵp Stopiwch y Rhyfel Sir y Fflint, Ymgyrch Solidariaeth Palesteina Gogledd-ddwyrain Cymru, a’r capel yn yr Wyddgrug. Gwnaed casgliad helaeth ar y noson tuag at gostau eu taith a Medical Aid Palestine.

Yn dilyn cyflwyniad a chroeso gan y gweinidog, a ddarllenodd o Salm 46 yn sôn am yr Un nerthol sy’n gallu torri’r bwa, dryllio’r waywffon a llosgi’r cerbyd rhyfel, fe ganodd Eirian Conlon fersiwn Brigyn o’r gân ‘Haleliwia’, Leonard Cohen. Bu’n falch wedyn o roi cyfieithiad o’r gân i’r ddau siaradwr, â llinellau agoriadol y gân yn sôn am y dwrn o ddur oedd yn brofiad mor real iddyn nhw:

> Mewn dwrn o ddur mae’r seren wen,
> Mae cysgod gwn tros Bethlehem,
> Dim angel gwyn yn canu Haleliwia.
> Codi muriau, cau y pyrth,
> Troi eu cefn ar werth y wyrth,
> Mor ddu yw’r nos ar strydoedd
> Palesteina.
>
> Haleliwia, Haleliwia, Haleliwia,
> Haleliwia.

Clywsom straeon dirdynnol a gweld toreth o glipiau fideo enbyd yn cofnodi’r trais yn erbyn trigolion Palesteinaidd y Llain Orllewinol. Fe wnaed inni deimlo’n annifyr ddigon yn eu gwylio, ond roedd pawb oedd yn bresennol yn awyddus i glywed am brofiad a thystiolaeth y cyfeillion yma o Balesteina sy’n byw dan feddiannaeth ac mewn cyfnod o hil-laddiad eu perthnasau yn llain Gaza yn wyneb y byd i gyd. Bu’n dda inni gael clywed eu stori.

Treuliodd Zaid dipyn o amser yn esbonio inni ar fap o’r Llain faint y byddai’n ei gymryd iddo gyrraedd ei swyddfa ym Methlehem o Nablus a’r rhwystrau fyddai’n ei wynebu ar y ffordd. Gallai gymryd wyth awr ar y gorau i deithio’r hanner can milltir rhwng y ddau le, gan dreulio oriau wrth y giatiau ar hyd y ffordd. Gwelwyd natur ddirmygus y tsiecio a’r perygl a wynebid bob tro y bydden nhw’n teithio. Wrth deithio hefyd y byddai llawer o’r Palestiniaid yn cael eu dal yn ôl a’u carcharu am gyfnod neu’n barhaol. Roedd y carchardai’n llawn o rai oedd wedi eu dal yn ôl wrth deithio, yn ddynion, merched a phlant, dan amodau truenus.

Holwyd am eu diogelwch wrth ddychwelyd adref. Gofynnwyd onid oedden nhw’n gwylltio wrth wynebu’r cyfyngiadau a’r trais cyson yma?

Atebodd Zaid eu bod yn flin eithriadol ynghanol eu hamgylchiadau. Eglurodd eu bod nhw’n cael eu cyflyru i dderbyn eu bod yn byw dan y gorthrwm hwn a phawb wedi anghofio amdanyn nhw, ond nad oedd yr amgylchiadau yma’n rhai normal.



Nidal Rishmawi o Fethlehem a Zaid Azhari o Nablus yn Llain Orllewinol Palesteina

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

### *‘Mewn dwrn o ddur’ – ymdrech ddyddiol Palestiniaid y Llain Orllewinol*

*(parhad o dudalen 3)*

Nid fel hyn yr oedd pobl i fod i fyw, a’r synnwyr hwnnw o gyfiawnder oedd yn eu gyrru i ddal ati.

Yn gynharach roedden nhw wedi ymuno â’r wylnos sy’n cael ei chynnal ar y sgwâr bob pnawn Sul ers cyfnod yr Adfent 2023. Roedd y profiad hwnnw wedi eu nerthu a’u cysuro wrth feddwl am y gefnogaeth sydd iddyn nhw, yn ogystal â’r gynulleidfa dda oedd yn bresennol y noson honno.

Fel y byddwn fel Cymry yn falch o holi am gysylltiadau rhwng pobl a’i gilydd, fe holais Nidal, ‘Wyt ti’n nabod Munther Isaac, yr arweinydd eglwysig Lutheraidd?’

‘Ydw, ydw, mae o’n gymydog i mi,’ oedd yr ateb. ‘Fe dyfon ni i fyny’n chwarae pêl-droed efo’n gilydd.’

‘Wyt ti’n nabod Mitri Raheb, y diwinydd o Fethlehem?’ holais wedyn. ‘Ydw, mae fy ŵyr yn yr ysgol sydd ganddo ym Methlehem. Dim ond un neu ddau y cant o’r boblogaeth yno sy’n Gristnogion ac ryden ni i gyd yn nabod ein gilydd!’

‘I ba enwad wyt ti’n perthyn?’ holais.

‘Dydi’r rheini ddim yn cyfrif bellach efo’r sefyllfa ryden ni’n ei hwynebu bob dydd,’ atebodd, gan ychwanegu wrth inni sgwrsio ymhellach, ‘ryden ni’n gweld ein hunain (Gristnogion ym Methlehem a Phalesteina) fel yr halen sy’n rhoi’r blas ar y gymuned yno.’

Pe bydden nhw’n gadael oherwydd y gormes a’r perygl, beth fyddai yna i roi blas wedyn?

*(Gol. HP-D)*


Eglwys Bresbyteraidd Cymru

## Eglwys Fairwater, Caerdydd

### Mae Eglwys Bresbyteraidd Fairwater yn chwilio am Weithiwr Cymorth Eglwysig.

Rydym yn chwilio am unigolyn brwdfrydig i gefnogi henuriaid yr eglwys yn eu cyfrifoldebau bugeiliol, allgymorth a gweinyddol, ac i gefnogi’r eglwys ehangach yn ei gwaith allgymorth i’r gymuned ehangach.

**Oriau:** 21 awr yr wythnos.

**Cytundeb:** 3 blynedd yn y lle cyntaf, gyda’r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf

**Cyflog:** Graddfa EBC pwyntiau 23–27 (£27,342.56–£29,746.60)
A bydd cyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn PCW.

**Lleoliad:** Mae’r swydd hon wedi’i lleoli yn Fairwater, Caerdydd.

Mae’r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a dau ganolwr boddhaol.

Mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol yn berthnasol i’r swydd hon.

Am ragor o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch ag:
e-bost swyddfa.office@ebcpcw.cymru
ffôn – 02920 627 465

Dyddiad Cau : 1af Rhagfyr 2025 am 4yp.







# Ffydd a Bywyd yn Lesotho: ffilm newydd gyda Dr Graham Thomas

Ers blynyddoedd lawer mae Pwyllgor Chwiorydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru wedi bod yn cefnogi'r elusen Gristnogol HIV Lesotho. Sefydlwyd yr elusen gan Dr Graham Thomas yn 2005. Mae Graham yn flaenor yng Nghapel Tegid, y Bala, ac yn briod efo'r Parch. Cass Meurig. Bu Graham wedi gweithio yn Ne Affrica fel meddyg newydd gymhwyso a daeth yn ymwybodol fod llawer yn Lesotho yn dioddef o dwbercwlosis a HIV/Aids heb unrhyw brofion, triniaeth na chefnogaeth ar gael iddyn nhw. Problem arall gysylltiedig oedd nifer uchel y teuluoedd dan ofal brodyr a chwiorydd hŷn – aelwydydd lle mae'r pen teulu yn blentyn, teuluoedd lle mae brodyr a chwiorydd yn gofalu am ei gilydd oherwydd eu bod i gyd yn blant amddifad.



Plant yn yr ysgol uwchradd yn Tabellong

Gan weithio gydag eglwysi ac ysgolion lleol yn Tebellong, yng nghefn gwlad de-ddwyrain Lesotho, mae Graham wedi sefydlu llawer o brosiectau sydd wedi mynd i'r afael â'r problemau y mae'r bobl yn eu hwynebu. Roedd y gwaith cychwynnol yn cynnwys hyfforddi a darparu offer i nyrsys a sefydlu clinigau symudol mewn pentrefi anghysbell i ganfod a thrin twbercwlosis a HIV. Sefydlwyd hosbis sy'n estyn allan gydag wyth o weithwyr yn gofalu am yr henoed, yr anabl a'r methedig yn eu cartrefi. Mae cynlluniau eraill yn cynnwys addysgu ffermwyr yn null amaethyddiaeth gadwriaethol Dull Ffermio Duw. Aed ati hefyd i adeiladu a darparu cyfarpar ar gyfer ysgolion cynradd, darparu nawdd ar gyfer cyfrifiaduron a chysylltiad rhyngrwyd ar gyfer yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd. Cefnogir yr eglwys leol i estyn allan at y plant amddifad gyda pharseli bwyd, darparu sbectols a dillad, rhoi esgidiau i dimau pêl-droed a llawer, llawer mwy.

Mae'r prosiectau wedi'u llunio a'u cynnal gyda'r eglwysi lleol, ac mae Graham hefyd wedi ceisio cefnogi'r gweinidogion lleol. Nid yw'r gwaith wedi bod heb ei heriau, ac yn gynharach eleni bu iddyn nhw wynebu cyfnod anodd iawn yn sgil marwolaeth drasig mam ifanc oedd ar fin dechrau gweithio gyda'r eglwys, ar y cyd â'i gŵr, fel Gweithiwr Plant ac Ieuenctid / Efengylydd.



Cyfrifiaduron yn yr ysgol

Hyd yn ddiweddar mae'r gwaith wedi'i ariannu drwy roddion gan unigolion ac eglwysi, ynghyd â grant blynyddol gan Bwyllgor y Chwiorydd ac ymdrechion codi arian. Yn 2022 a 2024, sicrhaodd yr elusen grant Llywodraeth Cymru i'w galluogi i wneud gwelliannau sylweddol i'r ysgol uwchradd a chyflogi metron i ofalu am y myfyrwyr benywaidd (mae'n rhaid i lawer o ddisgyblion deithio o bentrefi anghysbell iawn i fynychu'r ysgol). Fel Pwyllgor Chwiorydd, rydym yn teimlo'i bod yn fraint cefnogi Dr Graham, yn ariannol ac mewn gweddi, ac rydym wrth ein boddau yn derbyn diweddariadau rheolaidd ganddo a gweld sut mae'r Arglwydd yn bendithio gwaith yr elusen eithriadol hon.


Os hoffech wybod mwy am HIV Lesotho, gallwch ddarllen adroddiadau Graham yn y llyfr thema ac ar dudalen y chwiorydd ar wefan EBC (Ein Cenhadaeth-Chwiorydd-Cefnogi Cenhadaeth). Gallwch ddod o hyd i'r ffilm ddiweddaraf yn Gymraeg ar sianel Youtube EBC: https://www.youtube.com/watch?v=LVnfDHgEMFEVnfDHgEMFE. Neu gallwch chwilio am HIV Lesotho i wylio'r ffilm Saesneg.

Os hoffech roi rhodd i'r elusen, gellir dod o hyd i'r manylion perthnasol ar ddiwedd y ffilm neu drwy gysylltu ag Eirian Roberts: eirian.roberts@ebcpcw.cymru. Diolch i Gwyn Rhydderch am ei gymorth i gynhyrchu'r ffilm.

Ymunwch â ni i weddïo dros Dr Graham a gwaith HIV Lesotho.

## Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




### Codi'r Llen 7 – Ymson Rispa

Ces f'adnabod fel merch a fu'n gaeth i ddynion. Magwyd fi dan gysgod fy nhad, Aia; bûm hefyd yn forwyn i fympwyon Saul. A nawr rwy'n gaethferch galar. Cariodd y gwyntoedd main yr hanes, ond aeth fy stori'n angof. Dyma gyfle ichi felly glywed am fy ngwewyr.

Roedd y newyn wedi para am flynyddoedd ac wedi lledu drwy'r wlad. Sibrydai'r bobl yn ofergoelus am bechodau cudd y genedl. Wyddwn i ddim y byddai hynny'n fy ngwthio ryw ddiwrnod at graig ysgythrog. Fe wyddwn beth oedd poen ymhell cyn bod pobl Gibeon yn mynnu dial ar Saul. Gwelais sut y gallai grym dynion eu harwain at greulondeb; gallai'r grym hwnnw hefyd eu codi a'u torri'n deilchion.

Pan addawodd Dafydd roi fy meibion i'r Gibeoniaid i gael eu lladd, teimlais y ddaear yn sigo oddi tanaf. Holltodd y newydd drwof fel cyllell. Ches i ddim rhybudd, na siawns i wrthdystio. Cymerwyd Armoni a Meffibosheth oddi arnaf er mwyn talu dyled – nid eu dyled hwy, na'm dyled innau.

Mae rhai briwiau na all neb eu disgrifio, ond byddaf yn ailymweld â hwy'n aml yn fy meddwl. Gwyliais fy meibion yn cael eu cludo ymaith. Gwelais y man a ddewiswyd i'w crogi i farwolaeth. Disgwyliais i rywbeth ddigwydd i wyrdroi'r penderfyniad hwn, ond ni ddaeth dim. Sylwais fod dail y coed olewydd yn ysgwyd, fel petaent yn ofni'r hyn oedd ar fin digwydd.

Roedd saith ohonynt i gyd, a 'mechgyn i yn y canol. Tymor o ddiolchgarwch oedd hwn i fod, a'r cynhaeaf haidd yn barod. Dyna eironi! Do, fe'u crogwyd hwy oll, a'u gadael ar y mynydd – yn llygad yr haul ac yn nannedd y gwynt. Yn ôl y gyfraith, haeddai pawb gladdedigaeth barchus a chael gorwedd mewn hedd. Ond ddaeth neb i dynnu'r cyrff i lawr; feiddiai neb ddod. Llithrodd tywyllwch cywilydd drosof. Allwn i mo'u gadael. Taenais sachlïain ar hyd y graig gyfagos i feddalu ei garwedd. Doedd dim a allai lyfnhau'r crafiadau poenus yn fy nghalon. Arhosais yno, o doriad pob gwawr hyd nes bod y sêr yn ymddangos fel pwythau arian yn yr awyr bob nos. A gwyliais.

Cylchai'r adar ysglyfaethus yr awyr uwchben, a llechai'r anifeiliaid gwyllt dan y coed yn amyneddgar. Lluchiais y cerrig a'r canghennau bob tro y byddai un ohonynt yn ymlwybro'n agosach. Gwaeddais nerth fy mhen i'w cadw nhw draw. Llwyddais rywsut. Drwy'r glaw a'r gwynt, drwy'r gwres tanbaid, cedwais fy nerth. Ro'n i fel creadur gwyllt fy hun; roedd yn rhaid imi amddiffyn cyrff fy mhlant. Roedd gorfod eu gweld yn crebachu a'r cnawd yn pydru fel hunllef fyw, yn waeth nag unrhyw beth welais erioed o'r blaen.

Byddai rhai weithiau'n mynd heibio gan syllu arnaf fel petawn yn gynddeiriog. Nid cadw gwylnos iddyn nhw yr oeddwn, felly pa ots eu bod yn methu fy neall? Ro'n i'n brwydro am gyfiawnder, haeddiant a pharch. Onid dyna'r pethau pwysicaf oll?

O'r diwedd, clywodd y Brenin Dafydd amdanaf. Ai teimlo tosturi tuag ataf yr oedd? Neu oedd e'n ofni y byddai gwarth Duw ar ei ysgwydd, efallai? Wyddwn i ddim beth yn union a symbylodd calon Dafydd i feddalu, ond fe ddaeth y gorchymyn y dylai esgyrn fy meibion gael eu claddu. Byddai'r ddau yn cael man gorffwys, lle i orwedd.

Nid mater o orfoledd oedd hyn i mi, ond rhyddhad. Medrwn anadlu'n ddwfn am y tro cyntaf ers amser. Anadlu i mewn ac anadlu allan, yn lle dal fy ngwynt am funudau hir a chyson.

Os caiff fy stori i ei hadrodd, dyma ddylai oroesi: gall gwylnos mam ysgwyd seiliau teyrnas gyfan. Hyd yn oed mewn adfyd, gall menyw heb yr un arf ond galar fod yn ddiysgog ei dyfalbarhad. Ac er bod pethau'n darfod, mae cariad yn parhau.

**Holi**

- Mae protest heddychlon Rispa yn rymus. Sut all ei hymateb hi i'w hargyfwng ein dysgu ni am ffyrdd o frwydro yn erbyn anghyfiawnder?
- Tybed pa emosiynau a deimlodd Rispa yn ystod ei phrofiad? Ydy'r emosiynau hynny'n cyfateb rywsut i ddioddefaint yr ydym ni, neu eraill, wedi'i brofi?
- Nid yw Dafydd yn gweithredu hyd nes ei fod yn clywed am wylnos Rispa. Ceisiwch feddwl am enghreifftiau eraill pan fo dyfalbarhad unigolyn wedi symbylu newid.
- Sut mae ymddygiad Rispa yn ein haddysgu am barch ac urddas? Beth ddywed y stori am faterion galar, arferion claddu, neu ofalu am bobl ar gyrion cymdeithas?

**Gweddi**

Gofala drosom, Dduw cariadlon, fel y gofalwn ni am eraill. Goleua ni, Dduw daionus, fel y goleuwn ninnau galonnau eraill. Gwylia drosom, Dduw trugarog, fel y gwyliwn ni dros bawb sydd mewn angen. Amen.

*Siân Meinir*

S4C

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 30 Tachwedd, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Carys Davies

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 30 Tachwedd, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Rhian Morgan, Llandeilo

BBC radio cymru

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 30 Tachwedd, am 7:30yh**
Bydd Rhodri Gomer yn ymweld â gerddi Aberglasne yn Sir Gâr i nodi Sul cyntaf tymor yr Adfent. Cawn fwynhau rhai o hoff garolau'r Nadolig a pherfformiadau gan Jessica Robinson ac Angharad Brinn.

# Cip yn ôl ar weinidogaeth arloesol



Ym Mhrifwyl Môn 1999 gyda'r pyped Enoc o Goleg y Bala



Catrin ac Ifan Roberts yn y dyddiau cynnar!

Mae llawer o sôn y dyddiau hyn am fentrau newydd o ran y genhadaeth Gristnogol ar hyd a lled Cymru – eglwysi newydd, arweinwyr ifanc newydd, dulliau newydd o foli, patrymau newydd o addoli, ffyrdd newydd o estyn allan.

Wrth weld yr hyn sy'n digwydd, mae Ifan a minnau wedi bod yn edrych yn ôl ar ein gweinidogaeth dros y blynyddoedd a sylweddoli pa mor newydd ac arbrofol oedd rhai pethau a ddylanwadodd yn fawr ar ffurf y weinidogaeth honno. Cyfeiriaf at dri pheth yn benodol, sef:

- sefydlu'r weinidogaeth ran-amser gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru
- cynllun clybiau Cristnogol i blant, Clwb Hwyl Hwyr
- cyhoeddi'r gyfrol o ganeuon *Tyrd i Ddathlu!*

**Y Weinidogaeth Ran-amser**
Gwirfoddol oedd hon ar y dechrau, ond datblygodd i fod yn weinidogaeth gyflogedig. Dechreuodd Ifan yn weinidog ifanc yng Ngofalaeth Uwchaled ym 1980, gofalaeth oedd yn cynnwys pum eglwys fach ond bywiog. Ar y pryd roeddwn i'n gweithio'n llawn amser fel athrawes, a dim ond yn gallu cynorthwyo fel yr oedd y gwaith yn caniatáu. Ond roedd y ddau ohonom wedi ymdeimlo ein bod wedi'n galw i gyd-weinidogaethu.

Roedd symud i Benrhyndeudraeth yn 1986 a derbyn gofal dros ofalaeth fwy – dwy eglwys yn y Penrhyn (Nasareth a Gorffwysfa), Llanfrothen, Croesor, Minffordd, Bryntecwyn a'r Ynys (ymunodd i ffurfio un eglwys) a Harlech, yn alwad mawr ar un person.

Roeddwn i'n bregethwr lleyg ers blynyddoedd, ac wedi teimlo galwad cynyddol i wasanaethu eglwys Crist. Bu gwragedd gweinidogion yn chwarae rhan bwysig yng ngweinidogaeth eu gwŷr dros y degawdau, ond roedd yr arweiniad ddaeth i mi yn wahanol rywsut. Wedi i EBC gyflwyno patrwm newydd o weinidogaeth, gweinidogaeth ran-amser, wirfoddol, cytunodd y ddau ohonom mai dyma fyddai'r ffordd ymlaen.

Wedi gadael fy ngwaith fel athrawes, bûm yn dilyn cwrs pwrpasol yn y Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth ar benwythnosau cyn cael fy ordeinio yn 1989 a dechrau ar flynyddoedd o weinidogaethu ar y cyd. Roeddem yn argyhoeddedig bod Duw wedi agor y drws ac mai dyma fyddai'r ffordd i ni wasanaethu Crist yn fwyaf effeithiol. Doedd hi ddim yn hawdd, a bu'n rhaid sicrhau nad oedd ein dau blentyn yn cael cam.

O'r dechrau, roedd gennym weledigaeth benodol o ran estyn allan at blant ac ieuenctid – cynnig yr Efengyl mewn ffordd hwyliog a syml. A dyma symud at yr ail ddatblygiad, a chwaraeodd ran allweddol dros y blynyddoedd, sef:

**Sefydlu cynllun Clybiau Hwyl Hwyr**
Fe wnaed hyn ar gyfer plant cynradd o dan arweiniad Delyth Wyn Davies a Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid EBC. Roedd y cynllun yn cynnig adnoddau a syniadau bywiog ar gyfer clybiau plant Cristnogol. Aethom ati i sefydlu Clwb Hwyl Hwyr yng Ngorffwysfa Penrhyn, Croesor, Llanfrothen, Bryntecwyn a Harlech. Byddai tua 30 o blant yn dod i'r clwb yn y Penrhyn yn wythnosol. Diolch am gefnogaeth y gwirfoddolwyr o'r eglwysi ddaeth i'n cynorthwyo. Cafwyd croeso gan ysgol Croesor a Llanfrothen i gynnal y clwb ar ddiwedd y diwrnod ysgol mewn ystafell ddosbarth. Roedd pum clwb plant wythnosol felly, gyda newydd-deb y clybiau'n denu plant newydd i glyw'r Efengyl. Dyma hefyd y cyfnod pan ddechreuodd peth o'r dechnoleg newydd, megis OHP ac *acetates* gyrraedd y capeli!

Roedd derbyn adnoddau Clwb Hwyl Hwyr yn gyson yn gymaint o help i ni. Ac arweiniodd hyn at gyfle i mi (gyda chymorth eraill) ddatblygu cyfres o adnoddau o dan adain y Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid (Coleg y Bala) ar wahanol themâu Beiblaidd: Garej y Gair, Canolfan Canan, Sam Styfnig a mwy. Roedd y pecynnau'n cynnig syniadau am gemau, caneuon, gwaith crefft, ac awgrymiadau am adnoddau gweledol etc, gyda thema wahanol ar gyfer pob hanner tymor, a'r cyfan ar gael am ddim i arweinwyr.

Gyda gofalaethau'n tyfu a gweinidogion o dan bwysau, roedd adnoddau parod cyfrwng Cymraeg o'r math yn werthfawr iawn, ac yn gymorth enfawr yn yr holl ofalaethau a ddilynodd: cylch Prestatyn, Casnewydd, a hyd yn oed wedi i wallt ein pen wynnu yn ardal Cwm Gwendraeth. Calondid yw gweld ambell blentyn, sydd bellach yn oedolyn, yn hel atgofion am Glwb Hwyl Hwyr eu plentyndod ar Facebook.

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

## Mentrau Newydd!

*(parhad o dudalen 7)*

**A'r trydydd datblygiad? Llyfr o ganeuon Cristnogol newydd i blant – Tyrd i Ddathlu! (llyfr cerddoriaeth a geiriau, a CD)**

Yn ystod ein cyfnod ym Mhrestatyn (1992–2002), dan arweiniad Andy Hughes oedd ar y pryd yn gweithio i genhadaeth Saint y Gymuned, plannwyd yr hedyn o gael llyfr o ganeuon Cristnogol newydd i blant gyda chryno ddisg o'r caneuon yn gymorth o ran cyfeiliant (methiant fu fy ymdrech i ddysgu mwy na thri chord ar y gitâr!) ac o ran helpu plant y clybiau i ddysgu'r caneuon newydd. Dyma'r cyfnod cyn gallu mynd ar y We i ganfod cyfeiliant a lawrlwytho adnoddau digidol! A dyna'r unig adeg y bûm mewn stiwdio recordio, a hynny gyda Chôr Ysgol Dewi Sant, y Rhyl, sêr y cryno ddisg! Ers hynny, mae'r datblygiadau o ran caneuon addoli newydd wedi mynd o nerth i nerth gyda'r dechnoleg newydd yn gwneud y gwaith o ehangu'r mynediad at ddefnyddiau newydd cymaint haws.

Dim ond wedi oedi ac edrych yn ôl y mae rhywun yn sylweddol newydd-deb yr hyn a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod hwn, a diolch am arweiniad yr Ysbryd Glân a fu'n gyfrifol, fel y mae heddiw, am agor y ffordd i waith newydd yn enw Crist.

*Catrin Roberts*




# Gras ar gyfer pob tymor – y gynhadledd

Buom yn gweddïo; dosbarthwyd taflenni i'r priffyrdd a'r caeau; gwahoddwyd unigolion; archebwyd bwyd; paratowyd siaradwyr – a'r cyfan oedd ar ôl i'w wneud oedd ymddiried yn Nuw.

Ar 11 Hydref, yn Eglwys Park End, Caerdydd, trefnwyd cynhadledd o'r enw 'Gras ar gyfer pob tymor' i baratoi ar gyfer rôl newydd Samantha Hodgins fel Caplan i Oedolion Hŷn o fewn Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Croesawyd dros drigain o bobl i'r gynhadledd, a ddechreuodd gyda Tina English (o'r mudiad Embracing Age) yn siarad ar y testun 'Pam mae'r Eglwys yn lle gwych i heneiddio'. Atgoffodd Tina ni fod Duw yn gwerthfawrogi pobl hŷn cymaint ag unrhyw un arall, ac yn eu bendithio yn eu henaint. Defnyddiodd yr ysgrythur i ddangos sut mae Duw yn gweld ei bobl: ein bod wedi ein creu ar ddelw Duw, yn cael ein caru, wedi ein gwneud ar gyfer bod mewn perthynas, yn ddibynnol ar ein gilydd ac ar Dduw.

Yna, siaradodd John Treharne am rai o'r heriau y mae pobl hŷn yn eu hwynebu, eu hanghenion a sut i fynd i'r afael â nhw o fewn cymuned yr eglwys. Yn y seminarau archwiliwyd sut i drosglwyddo cyfrifoldebau yn yr eglwys, sut i annog ffydd ym mlynyddoedd olaf oes, llawenydd gweinidogaeth mewn cartrefi gofal a heriau byw gyda dementia.

Cynhaliwyd y digwyddiad yn Eglwys Bresbyteraidd Park End, Caerdydd, ac nid oedd dim yn ormod o drafferth iddyn nhw. O archebu'r cinio blasus, darparu lluniaeth drwy gydol y dydd, i ofynion technoleg ac addoli. Rwy'n ddiolchgar iawn i Owen Batstone a'i dîm am y croeso.

Cafodd pawb ddaeth i'r gynhadledd amser gwych, diwrnod i gael ein calonogi a diwrnod i gael ein hatgoffa, er y gall heneiddio ddod i ran pob un ohonom, fod Duw yn addo 'hyd eich henaint, myfi yw Duw, hyd eich penwynni, mi a'ch cariaf. Myfi sy'n gwneud, myfi sy'n cludo, myfi sy'n cario, a myfi sy'n arbed.' (Eseia 46:4)




Yn y llun, o'r chwith i'r dde: Nan Powell-Davies, Phil Jenkins, Tina English, Karen Jennings, Peter Milsom, John Treharne

Gobeithio bod y gynhadledd wedi bod yn fodd o godi calon a'i bod wedi helpu'r rhai a ddaeth yno i barhau â'u gweinidogaeth i oedolion hŷn mewn ffordd gadarnhaol a chalonogol ac yn gogoneddu Duw. Rwy'n gobeithio y bydd adborth o'r gynhadledd yn ddefnyddiol i mi yn y dyfodol, wrth imi ddatblygu fy ngwaith yn cefnogi unigolion ac eglwysi ar draws y Cyfundeb.

Os hoffech ragor o wybodaeth ynghylch sut i gefnogi oedolion hŷn yn yr eglwys, beth am anfon nodyn at Samantha. Mae Samantha hefyd yn barod i ddod i siarad yn ein henaduriaethau a'n heglwysi.

SAMANTHA HODGINS yw Caplan i Bobl Hŷn Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Cyswllt: sam.hodgins@ebcpcw.cymru

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol 01745817584 / 07957510346 yn ystod oriau swyddfa
post@panel.cymru panel.cymru
neu Thirtyone:eight 0303 003 1111
(am gyngor tu allan i oriau swyddfa)

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru